Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 23 Mehefin 2014 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Stephen Beach (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. James Bryan, June Derry, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Katy Morgan Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

32. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyng. Bob Costain ac Elisabeth Culshaw.

33. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd Cyng. James Bryan, fel gwirfoddolwr yng Nghanolfan Ymwelwyr Rhuthun, ddiddordeb yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd:
Cof. Rhif 43(b) – Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Siambr Fasnach Rhuthun
Datganodd Cyng. Ken Hawkins, fel gwirfoddolwr yng Nghanolfan Ymwelwyr Rhuthun, ddiddordeb yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd:
Cof. Rhif 43(b) – Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Siambr Fasnach Rhuthun
Datganodd Cyng. Rosie Hughes-Moseley, fel aelod o'r Mudiad, ddiddordeb yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd:
Cof. Rhif 43(b) – Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Siambr Fasnach Rhuthun
Datganodd Cyng. Emrys Wynne, fel Is Gadeirydd y Mudiad, ddiddordeb yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd:
Cof. Rhif 43(a) Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Menter Iaith Sir Ddinbych

34. MENTER IAITH SIR DDINBYCH

Derbyniwyd cyflwyniad gan Ruth Williams, Prif Swyddog, ddiolchodd i'r aelodau am eu cyfraniad blynyddol o £500.00 i'r Mudiad. Prif rôl Menter Iaith yw hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ac i roddi cymorth a chefnogaeth i unigolion a grŵpiau. Maent yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru hyd at £80,000 gyda £11,000 o Gyngor Sir Ddinbych – maent hefyd yn derbyn arian oddi wrth Gynghorau Tref a Chymunedau lleol ac arian Loteri. Mae digwyddiadau'r dyfodol yn cynnwys gweithdai i blant a phobl ifanc; profiad gwaith mewn gweithle Cymreig; cydweithio gyda grwpiau busnes a gwaith ar brosiectau penodol; cefnogi cyngherddau a digwyddiadau Cymreig. Bydd llythyr yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at y digwyddiadau yma yn cael ei drafod yn nes ymlaen yn y noson. Diolchwyd iddi gan Y Maer.

35. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

29 Mai Ysgol Rhuthun, Noson Picnic Ymchwil Cancr
30 Mai Diwrnod Gwobrwyo Ysgol Rhuthun, noson gyda Côr Rhuthun Efeillio o Briec
31 Mai Cae Cymro, Maer a Dirprwy Faer fel gwahoddedigion o Grŵp Eglwys.
2 Mai Elusennau Tref Rhuthun.
4 Meh Agoriad Swyddogol estyniad yn Patchwork Foods
5 Meh Hosbis Nightingale House Wrecsam, Diwrnod Gwobrwyo Ysgol Rhuthun
9 Meh Cyfarfod Cyd-lynydd Rhuthun yn Neuadd y Sir
10 Meh Cyfarfod Rhyfel Byd Cyntaf yn Ystafelloedd y Plwyf
11 Meh Cyfarfod Llywodraethwyr
13 Meh Agor Marchnad Wledig yn yr Eglwys Bresbyteraidd, darlleniadau Llyfrgell min nos
14 Meh Dathlu 100 mlynedd o'r Brownies yn y Drill Hall
16 Meh Ymweliad â chanolfan ATC, Rhuthun
17 Meh Cyfarfod yn Nantclwyd y Dre par Sul Dinesig

22 Meh Sul Dinesig Maer Dinbych
23 Meh Diwrnod Lluoedd Arfog

36. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan	Gŵyl Rhuthun x 2, Pwyllgor Gweithredol Canolfan Awelon
Cyng. June Derry	Diwrnod Gwobrwyo Ysgol Rhuthun
Cyng. Sioned Foulkes	Ffrindiau Grŵp Cae Ddôl
Cyng. Ken Hawkins	Cyfarfod Rhyfel Byd Cyntaf
Cyng. Menna Jones	Taith Gyfnewid Baton y Frenhines, cyfarfod Rhyfel Byd Cyntaf, Corff Llywodraethol Ysgol Borthyn x 3
Cyng. Simeon Jones	Gŵyl Rhuthun
Cyng. Robert Owen-Ellis	Gardd yr Arglwydd yn Nantclwyd y Dre, Pwyllgor Staffio Ysgol Pen Barras, Cyfarfod Cyd-lynydd Rhuthun x 2, Menter Iaith, Apwyntiad Ysgol Pen Barras, Marchnad Wledig Rhuthun, Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras, Banc Bwyd Rhuthun x 3
Cyng. Anne Roberts	Diwrnod Gwobrwyo Ysgol Rhuthun, Hosbis Nightingale House Wrecsam, Cyfarfod Rhyfel Byd Cyntaf, Marchnad Wledig Rhuthun, darlleniadau Llyfrgell min nos, ymweliad â ATC yn Heol y Parc, Ymlaen Rhuthun.
Cyng. Katy Morgan Williams	Taith Gyfnewid Baton y Frenhines
Cyng. Geraint Woolford	Siambr Fasnach Rhuthun, Tim y Dref
Cyng. Emrys Wynne	Pwyllgor Rheolaeth Theatr John Ambrose

37. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol gynhaliwyd ar 27 Mai 2014.*

38. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

39. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

40. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

41. AELODAETH PWYLLGORAU 2014 / 2015

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried aelodaeth y gwahanol bwyllgorau.
***PENDERFYNWYD**: bod yr aelodau canlynol yn cael eu hethol fel a ganlyn:*

(a) PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyngr. Bob Costain, Elisabeth Culshaw, Menna Jones, Simeon Jones, Katy Morgan Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne.

(b) PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyngr. James Bryan, June Derry, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley a Robert Owen-Ellis.

Aelodaeth y Pwyllgorau eraill fel a ganlyn:

(c) IS-BWYLLGOR CYMORTH ARIANNOL

Cyngr. Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry a Katy Morgan Williams.

(ch) IS-BWYLLGOR CYNLLUN IAITH

Cyngr. James Bryan, Sioned Foulkes, Menna Jones a Robert Owen-Ellis.

(d) IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL
Cyngr. Elisabeth Culshaw, June Derry, Menna Jones a Geraint Woolford.
(dd) GRWP ARCHWILIO DOGFENNAU
Cyngr. Rosie Hughes-Moseley, Ken Hawkins a Robert Owen Ellis.
Mae'r Maer a'r Dirprwy Faer yn rhinwedd eu swydd yn aelodau o **BOB** Pwyllgor.

42. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL 2014 / 2015
Gofynnwyd i'r aelodau adolygu a diweddaru rhestr cynrychiolaeth Cyngor Tref.
***PENDERFYNWYD**: bod y rhestr yn cael ei diweddaru.*

43. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL
(a) MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol o £1,100.00 (mil a chant o bunnoedd) i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y dref.
***PENDERFYNWYD**: gofyn am rhagor o fanylion gan gynnwys costau a dyddiadau'r digwyddiadau unigol.*
(b) SIAMBR FASNACH RHUTHUN
Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr (eisioes wedi ei ddosbarthu) gan Gadeirydd y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol o £2,600.00 tuag at siop Canolfan Ymwelwyr Rhuthun ar SgŴar Sant Pedr a gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cais yn dilyn cyflwyniad gan Lois Hubbard a Nick Birch yn y Pwyllgorau diwethaf.

44. COFRESTRU ANFONEBAU CANOLOG
Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Gyngor Sir Ddinbych parthed anfonebau am nwyddau a gwasanaethau.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y llythyr.*

45. NEUADD BENTREF SIR DDINBYCH / CANOLFAN GYMUNEDOL Y FLWYDDYN
Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr oddi wrth Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ynghyd â manylion am y gystadleuaeth uchod a ffurflen gais.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y manylion.*

46. COFFADWRIAETH 100 MLYNEDD ERS DECHRAU RHYFEL BYD CYNTAF
Derbyniodd yr aelodau fanylion am wasanaeth arbennig i'w gynnal yn Eglwys Sant Pedr, Rhuthun ar fore Sul, 3ydd Awst 2014 am 10:30 a.m.

47. MYNEDIAD I WYBODAETH AM GYNGHORAU CYMUNED A THREF
Cyflwynodd Clerc y Dref ddogfen ymgynghorol gan Lywodraeth Cymru ac mae angen ymateb erbyn Dydd Llun, 4ydd Awst 2014.
***PENDERFYNWYD**: bod y ddogfen yn cael ei hastudio gan y GrŴp Archwilio Dogfennau.*

48. SUL DINESIG – 6ed GORFFENNAF 2014
Derbyniodd yr aelodau fanylion a'r trefniadau ar gyfer y digwyddiad Dinesig uchod.

49. GWASANAETHAU NEWYDD ENEDIGOL YN Y GOGLEDD
Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Mr Darren Millar, A.C.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y llythyr.*

50. CIST GYMUNEDOL CLWYD
Derbyniodd yr aelodau wahoddiad i'r Cyfarfod Blynyddol i'w gynnal ar ddydd Iau, 10fed Gorffennaf 2014.
***PENDERFYNWYD**: bydd Cyng. Stephen Beach yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol.*

51. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynodd Clerc y Dref gopi o'r Adroddiad Blynyddol am 2013 / 14.

***PENDERFYNWYD**: bod Cyng Ken Hawkins yn astudio'r Adroddiad Blynyddol.*

52. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Mai 2014

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

53. CYFRIFON I'W TALU

D.U.	B.T.	Teliffon	*	119.10
580	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
581	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		144.60
582	Chris Birchall	Lluniau yn y Cyfarfod Blynyddol		165.00
583	Fineline Printing & Stationery Ltd	Cyflenwad Swyddfa	*	28.45
584	I.T. Williams Company Ltd	Hurio lori a dreifar i lwytho a chludo planwyr	*	380.00
585	Ground Control	Torri glaswellt – Ebrill 2014	*	448.62
586	Cynghorydd Stephen Beach	Lwfans y Maer (balans)		500.00
587	Dafydd Williams	Stampiau ayyb		24.00
588	Cyngor Sir Ddinbych	Hurio 'Cherry Picker;'	*	396.00
589	Ground Control	Gwaith cynnal a chadw - Maes Chwarae	*	390.00
590	Siambr Fasnach Rhuthun	Cyfraniad tuag at Ganolfan Ymwelwyr Rhuthun		1,000.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £310.36)

54. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau dyddiad cyfarfodydd nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 28 Gorffennaf 2014*